



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol y Tywyn  
Caergeiliog  
Caergybi  
Ynys Môn  
LL65 3NP**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd y Tywyn wedi ei lleoli yn Llanfihangel yn Nhywyn, nid nepell o arfordir gorllewinol Ynys Môn. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys llawer o blant teuluoedd yr awyrlu a phlant teuluoedd sy'n cartrefu yn nhai gosod niferus yr ardal leol. Mae lleiafrif o deuluoedd lleol yn rhai difreintiedig tra bod teuluoedd yr awyrlu yn tueddu i fod yn rhai breintiedig. Mae cyraeddiadau yn amrywio'n fawr pan ddechreu'r plant eu haddysg. Mae trosiant sylweddol ym mhoblogaeth yr ysgol, gyda chyfran uchel o'r disgyblion ond yn yr ysgol am ddwy flynedd neu lai.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 111 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan bedwar o athrawon amser llawn a dwy athrawes ran amser.

Tua 8% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Yn dilyn cytundeb gydag awdurdod lleol Ynys Môn, caiff plant personél yr Awyrlu eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg ac fe ddilynant raglen astudio Cymraeg fel ail iaith. Mae plant lleol yn dilyn rhaglen Gymraeg yr ysgol. Mae ychydig iawn o blant o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Mae'r ganran o ddisgyblion (33%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn a Chymru. Mae 28 (25%) o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na chanrannau'r sir a Chymru.

Mae'r pennaeth wedi bod yn y swydd ers Medi 1999.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol y Tywyn yn 2012-2013 yn £4,238. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842. Mae Ysgol y Tywyn yn safle 31ain allan o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol y Tywyn yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda;
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad uchel;
- rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu;
- ansawdd rhan fwyaf yr addysgu yn dda a staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol;
- trefniadau sefydlu effeithiol sy'n ymateb yn dda i anghenion y nifer uchel o ddisgyblion sydd yn newydd i'r ysgol; a
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol, cartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth â gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel sydd wedi cael eu cyfleu'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion a'r llywodraethwyr;
- pob aelod o staff yn gweithio fel tîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol;
- yr ysgol yn gwybod yn dda am ei pherfformiad ei hun a'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg;
- cynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau; ac
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

R1 Codi safonau yn y Gymraeg.

R2 Cysoni'r arfer asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain.

R3 Cynllunio gweithgareddau dysgu fydd yn ymestyn yn llawn ddisgyblion o bob gallu.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol fod gan y mwyafrif ohonynt lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ac eithrio yn y Gymraeg, sy'n iaith newydd i'r rhan fwyaf ohonynt.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd Saesneg. Maent yn gwrandao'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol a'i defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymateb i gyfraniadau oedolion a disgyblion eraill yn synhwyrol. Maent yn mynegi barn mewn modd aeddfed am wahanol faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae safon darllen Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen yn gynyddol hyderus a chywir gan ddefnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i wahanol ddibenion, gan gynnwys chwilio am wybodaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn Saesneg. Mae llawer yn darllen ar goedd gyda mynegiant clir. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth i wahanol ddibenion ac yn hyderus wrth ddefnyddio geiriaduron a thesawrws wrth ddod o hyd i ystyr geiriau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn Saesneg yn datblygu'n dda. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae eu gwaith yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. Mae gwaith rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith. Mae llawer ohonynt yn cynllunio, drafftio ac ar brydiau'n ail-ddrafftio i safon dda. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn glir gyda llawysgrifen daclus ac mae eu gwaith ysgrifennu ar draws y cwricwlwm i'r un safon ag y maent yn ei chyflawni yn eu llyfrau iaith.

O ystyried yr ystod gallu a'u cefndir ieithyddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth adeiladu eu medrau Cymraeg yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ymateb yn gywir i gwestiynau gan ddefnyddio geirfa adnabyddus a phatrymau iaith cyfarwydd yn gynyddol gywir. Mae medrau darllen ac ysgrifennu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n newydd i'r ysgol o gartrefi di-Gymraeg yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad llafar yn y Gymraeg. Mae llawer yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau'r athrawon. Ychydig o'r disgyblion hŷn sy'n gallu cynnal sgwrs a thrin a thrafod eu gwaith yn Gymraeg gan ddefnyddio geirfa a chystrawen gywir. Mae safon gwaith ysgrifenedig mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol gyda llawer ohonynt yn gallu esbonio ystyr eu hysgrifennu. Er hyn, ychydig iawn sy'n ysgrifennu'n annibynnol gyda chywirdeb.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) neu'n uwch mewn sgiliau iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant uwch yn agos i neu'n uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru yn eu sgiliau iaith a'u datblygiad personol a chymdeithasol ond yn is yn eu datblygiad mathemategol.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yn anwastad dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch (lefel 5) yn amrywio ond yn gyffredinol mae wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

### **Lles: Da**

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion am gadw'n iach a heini yn dda ac maent yn deall ei bwysigrwydd. Teimlant yn hapus a diogel tra yn yr ysgol ac yn ymwybodol at bwy i droi am gymorth a chynghor.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain. Lleiafrif sydd â'r hyder a'r gallu i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn cyd-chwarae'n hapus amser egwyl a chinio. Mae bron pob un yn foesgar a chwrtais ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion.

Mae'r canran presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf ychydig dros 95% sy'n uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Mae lefelau presenoldeb yn gyson ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl. Mae prydlondeb yn dda.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg yng ngweithgareddau a phenderfyniadau'r ysgol. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad cyngor yr ysgol tuag at ddiweddarau'r polisi bwlio.

Trwy ystod o weithgareddau, y tu mewn a thu allan i'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd. Maent yn meithrin dealltwriaeth dda o ddinasyddiaeth fyd-eang.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol i ddisgyblion o bob oedran sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu dysgu. Mae'r athrawon yn cydgynllunio'n briodol i sicrhau dilyniant cwricwlaidd ac i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion. Nid yw'r cynlluniau tymor byr yn sicrhau bob amser fod y gweithgareddau dysgu yn diwallu anghenion yr ystod gallu, yn enwedig rhai disgyblion o allu uwch.

Darperir profiadau addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd. Caiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau ac i aildrafftio. Hyrwyddir medrau meddwl y disgyblion yn llwyddiannus a manteisir yn effeithiol ar gyfleoedd i ddatblygu medrau rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae astudiaethau cynhwysfawr o'r ardal leol a chydweithio llwyddiannus gydag artistiaid, cerddorion a grwpiau dawns lleol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'r dimensiwn Cymreig. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn briodol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion ond yn llai effeithiol o ran ymestyn y rhai hynny sydd yn dysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth o gyfleoedd priodol i ddysgu am bwysigrwydd byw yn gynaliadwy ac yn iach. Caiff ddisgyblion o bob oedran gyfleoedd i weithio yn eu hardal leol tra hefyd yn manteisio ar eu cysylltiadau unigryw gyda'r awyrlu i ddysgu am amrywiaeth o ardaloedd a'u lle yn y byd ehangach.

### **Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae'r cyflwyniadau ysgogol, tasgau ymarferol a'r defnydd effeithiol o adnoddau yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r athrawon a'r cynorthwyr yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'r disgyblion a'i gilydd i gefnogi'r dysgu.

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol ac yn gosod disgwyliadau uchel. Ar draws yr ysgol, mae oedolion yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddwyn dysgu blaenorol i gof yn fedrus.

Mae hyn yn llwyddo i annog yr arfer o fyfyrion ar ddysgu ac i osod tasgau mewn cyd-destun cyfarwydd a pherthnasol. Yn yr ychydig wersi lle mae addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion o bob gallu.

Mae gan yr ysgol drefn asesu effeithiol sy'n adnabod anghenion disgyblion o wahanol oedran yn gynnar. Gwneir defnydd effeithiol o asesiadau safonol i fesur cynnydd. Mae hyn yn arwain at ffurfio grwpiau targed, ac i gyfeirio'r disgyblion at asiantaethau allanol pan fo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith marcio'n gadarnhaol ac yn adeiladol. Mae'r athrawon yn gynyddol yn cynnwys y disgyblion yn y broses o bennu targedau ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, nid yw'r arfer yn gyson ac felly nid yw bob amser yn eglur i lawer o'r disgyblion beth sydd yn rhaid iddynt wneud i wella eu gwaith. Mae'r athrawon yn llunio adroddiadau ar ddisgyblion sy'n glir, yn gyson ac yn llawn gwybodaeth, ac yn amlinellu meysydd i'w gwella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion. Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iachus a thrwy weithgareddau corfforol tu mewn a thu allan i'r ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd. Mae'r gwasanaethau dyddiol, a gefnogir gan aelodau eglwysig lleol yr awyrlu, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol.

Mae trefniadau sefydlu wedi'u teilwra yn dda i fodloni anghenion y nifer uchel o ddisgyblion sydd yn newydd i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau i warchod lles y plant ac i ddarparu'r ymyrraeth briodol ar gyfer eu hanghenion. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol hefyd yn manteisio'n effeithiol ar arbenigeddau gwasanaethau lleol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefn a pholisi'r ysgol yn cydymffurfio a'r cod ymarfer ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau safonol i adnabod yn gynnar unrhyw anghenion ychwanegol a threfnir cefnogaeth effeithiol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag asiantaethau ac yn cynnwys y rhieni a'r plant eu hunain ble bo hynny'n briodol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae'r ethos yn gynhwysol ac mae pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Rhoddir pwyslais da ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.



Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r gofod addysgu o amgylch yr ysgol yn ddeniadol a symbylus sy'n llwyddo i greu amgylchedd dysgu trawiadol. Mae safon y gwaith arddangos, sy'n cynnwys gwaith celf disgyblion, o safon uchel.

Mae ardaloedd allanol eang yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gyfoethogi'r ystod o gyfleoedd dysgu i grwpiau Cyfnod Sylfaen a hefyd i weithgareddau chwaraeon ffurfiol ac anffurfiol. Mae safon cynnal a chadw a glanweithdra'r adeilad a'r tir yn uchel.

Mae digon o adnoddau priodol i anghenion y disgyblion, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu honno'n effeithiol i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r dirprwy yn ysgwyddo ystod briodol o gyfrifoldebau rheolaethol yn effeithiol. Mae'r pennaeth, y staff, a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n dda fel tîm i ddatblygu gweithgareddau a phrofiadau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r staff yn gweithredu ystod eang o bolisiau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar godi safonau. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n dda.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am y ddarpariaeth addysgol a pherfformiad yr ysgol ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn a thrwy rannu eu harbenigedd, gwnânt gyfraniad pwysig i fywyd a datblygiad yr ysgol. Maent yn chwarae rôl gynyddol yn y broses hunanarfarnu trwy ddal yr ysgol i gyfrif am y safonau a'r ansawdd y mae'n eu cyflawni.

Caiff blaenoriaethau cenedlaethol a lleol eu rhoi ar waith yn gyson. Mae'r ysgol yn ymgymryd â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol llwyddiannus. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cynnig profiadau ysgogol i ddisgyblion yr ysgol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr uwch dim rheoli wybodaeth sicr am berfformiad yr ysgol, ei chryfderau ac elfennau ar gyfer datblygiad pellach. Maent yn gwneud defnydd cynyddol o safbwyntiau rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol yn y cyd-destun hwn. Mae rheolwyr yn ystyried ystod o wybodaeth sy'n cynnwys data ar safonau a dadansoddiad manwl o dueddiadau dros gyfnod. Mae hyn oll, ynghyd ag arsylwadau gwersi, yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth o'r hunanarfarnu'n fedrus i osod blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol ar gyfer gwella. Mae'r blaenoriaethau

hyn yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'r blaenoriaethau wedi eu costio'n briodol, y person â chyfrifoldeb wedi ei enwi, yr amser gweithredu wedi ei nodi ynghyd â meini prawf llwyddiant priodol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i argymhellion adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r rhwydweithiau o arfer broffesiynol sy'n datblygu o fewn yr ysgol, yn ogystal â'r cysylltiadau sydd wedi eu creu gydag ysgolion eraill, yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Dylanwada'r rhwydweithiau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cyfredol yn gadarnhaol, er enghraifft ar gyfer gwella medrau darllen y disgyblion drwy ddefnyddio darllenwyr electronig.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrraeddad disgyblion. Mae'r pennaeth a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni. Mae cydweithio a chyfathrebu effeithiol hefyd gydag ysgolion cynradd eraill, yr ysgolion uwchradd lleol a gwasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol, yn ogystal â nifer o asiantaethau eraill. Mae partneriaeth adeiladol gyda'r feithrinfa sy'n rhannu'r un campws. Maent oll yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau er lles y disgyblion.

Mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hyn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgolion uwchradd er mwyn cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth werthfawr gyda'r Awyrlu yn RAF Valley sy'n golygu mynediad i'r disgyblion at gyfleusterau ac arbenigedd unigryw.

Mae amryw o ymwelwyr o'r gymuned leol a thu hwnt yn gwneud cyfraniad da i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae cysylltiadau buddiol gyda'r sefydliadau hyfforddi athrawon.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae adnoddau staffio ac ariannol yr ysgol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithlon i wella'r dysgu. Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol i ymdrin â phob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion ac mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae cyfrifoldebau addas gan yr athrawon. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ymateb i'r blaenoriaethau a osodwyd o fewn y cynllun datblygu ysgol. Gwneir defnydd llawn o'r cyllid sydd ar gael gyda symiau rhesymol yn unig wrth gefn o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyflawnodd ddangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg neu Saesneg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol) mewn cyfuniad yn 2012 yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru.

Roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel yn uwch na'r disgwyl (deilliant 6) neu uwch yn eu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn uwch na chyfartaledd y teulu ond yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd yn uwch na'r disgwyl yn eu datblygiad mathemategol yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Roedd canran y disgyblion gyrhaeddodd deilliant 6 neu uwch yn eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol yn uwch nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru.

Yn gyffredinol, cyflawnodd bechgyn yn well na merched heblaw yn eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol lle cyflawnodd llai o fechgyn y deilliant uwch. Nid yw'r bwlch yn arwyddocaol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

Mae tueddiadau mewn cyflawniad disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd (canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 mewn cyfuniad o'r Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn anwastad dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan a'r uchaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Mae wedi bod yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn 2012. Roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% isaf mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Mae'r patrwm hefyd yn anwastad dros gyfnod ar gyfer y pynciau ar wahân. Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg a mathemateg yn uwch na chyfartaledd y teulu ond yn is na chyfartaledd Cymru. Roedd y canran disgyblion gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Roedd cyfartaledd y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Yn y pedwar pwnc, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig wedi bod yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg mewn cyfuniad wedi gwella'n sylweddol dros gyfnod o bedair blynedd. Mae'r canran yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn dwy o'r blynedd hynny, a'r uchaf yn y teulu yn 2012.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu'n uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn Saesneg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Cymraeg a mathemateg. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch yn amrywio ond yn gyffredinol mae wedi bod yn is na ffigurau'r teulu o ysgolion a Chymru yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gyffredinol, mae cyflawniad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn is na'r gweddill dros gyfnod. Mae'r merched yn tueddu i gyflawni'n well na'r bechgyn. Mae'r gwahaniaeth yn debyg i'r tueddiad cenedlaethol.

Er bod perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn is o gymharu â pherfformiad disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

## **Atodiad 2**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 17 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Nododd y cyfan o'r rhieni eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Maent i gyd yn cytuno bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Mae'r holl rheini yn cytuno bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod cymorth ychwanegol priodol ar gael yn ôl yr angen. Maent yn cytuno bod amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys teithiau ac ymweliadau. Mae bron pob un yn cytuno bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol a'u bod eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

Mae'r holl rieni yn cytuno'n bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater. Mae'r rhan fwyaf yn deall trefn yr ysgol ar gyfer cwyno.

#### **Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 42 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae bron y cyfan yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Maent hefyd o'r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

### **Atodiad 3**

#### **Y tîm arolygu**

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Alun Williams	Arolygydd Tîm
Ruth Rhydderch	Arolygydd Lleyg
Owain Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Jennifer Raffle	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

#### Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

#### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

#### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.